



# Grangetown: lle gwydych i gael eich magu

Cynllun plant a phobl ifanc ar  
gyfer Grangetown, Caerdydd





# Dyma ein cynllun ar gyfer Grangetown

**Dyma ein cynllun ar gyfer Grangetown. Ysgrifennwyd y cynllun gan blant a phobl ifanc Grangetown ochr yn ochr â thîm o Brifysgol Caerdydd.**

Hoffem i Grangetown fod yn lle gwych i bob plentyn ac unigolyn ifanc gael ei fagu.

Rydym yn meddwl ei bod yn bwysig bod pawb yn gwrando ar blant a phobl ifanc. Rydym yn byw yn Grangetown ac mae gennym lawer o syniadau i'w helpu i fod yn lle gwell.

Mae bywyd wedi bod yn anodd i rai plant a phobl ifanc yn ystod y tair blynedd diwethaf. Ar adegau, roedd rhaid i ni aros gartref ac nid oeddem yn gallu mynd i'r ysgol na chwarae gyda'n ffrindiau, oherwydd y coronafeirws. Mae'r strydoedd, y mannau chwarae a'r parciau yn ein hardal yn bwysicach fyth i ni nawr.

Hoffem i chi ein helpu i wneud i'n cynllun weithio ac i wireddu ein syniadau!



## Sut aethom ati i lunio ein cynllun

**Fe wnaethom weithio gyda dros 150 o blant a phobl ifanc i lunio ein cynllun.**

Rhwng mis Mawrth a Mehefin 2022, fe wnaethom gynnal gweithdai mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac ym Mhafiliwn Grange. Fe wnaethom ddefnyddio'r gweithdai i:

- Mapio'r lleoedd yn Grangetown yr ydym yn eu hoffi a'r lleoedd nad ydym yn eu hoffi
- Trafod sut y newidiodd cyfyngiadau'r cyfnodau clo ein ffordd o fyw a chwarae
- Tynnu llun o'r lleoedd sy'n bwysig i ni
- Trafod sut rydym ni'n symud rhwng lleoedd trwy gerdded, beicio, ar ein sgwter, ar y bws, neu yn y car
- Rhannu ein syniadau ar gyfer gwneud Grangetown yn well
- Gwneud modelau a chynlluniau o rai o'n syniadau
- Blaenoriaethu ein syniadau ar gyfer newid pethau yn ein hardal.

Fe wnaethom hefyd greu 'pecyn cymorth', yn dangos y dulliau hyn fel bod plant a phobl ifanc mewn ardaloedd eraill yn gallu llunio eu cynllun eu hunain.





# Crynodeb o'n cynllun

**Mae cynllun yn ffordd o ddangos yr hyn yr ydym am ei weld yn newid yn awr ac yn y dyfodol yn ein cymdogaeth.**

Mae cynllun yn gallu cynnwys ysgrifennu, mapiau a lluniau i ddangos sut rydym yn teimlo, y pethau rydym yn eu hoffi a ddim yn eu hoffi, a'r pethau yr hoffem eu gweld yn newid.

Mae yna bedair rhan i'n cynllun:

## A Bywyd a chwarae yn ystod y cyfnodau clo

Sut roeddem yn teimlo am y cyfyngiadau yn ystod y pandemig coronafeirws.

## B Ein Grangetown NAWR: y lleoedd rydym yn eu hoffi a ddim yn eu hoffi

Map yn dangos ein barn am ein cymdogaeth nawr.

**C Ein Grangetown yn Y DYFODOL** Mae gennym lawer o syniadau am sut i wella Grangetown. Mae yna bedwar map gwahanol sy'n dangos ein barn ni:

1 Grangetown Glân a Diogel

2 Chwarae yn Grangetown

3 Grangetown Gwyrdd

4 Grangetown i Bawb

## D Pethau sydd angen newid nawr, mewn 3-4 blynedd ac mewn 5+ mlynedd

Dyma beth ddylai ddigwydd yn fuan yn ein barn ni, ymhen ychydig o flynyddoedd ac mewn mwy na 5 mlynedd.




# A Bywyd a chwarae yn ystod y cyfnodau clo

Yn 2020, roedd yna feirws newydd o'r enw 'coronafeirws'. Ar adegau roedd rhaid i ni aros gartref ac nid oeddem yn cael mynd allan i weld ein ffrindiau. Nid oeddem yn gallu mynd i'r ysgol na defnyddio meysydd chwarae. Roedd rhaid i lawer o'r lleoedd rydym yn hoffi mynd iddynt i gael hwyl, gau. Roeddem yn treulio llawer o amser gartref ac yn ein lloffydd.

Roedd llawer ohonom yn teimlo'n drist iawn gan nad oeddem yn gallu chwarae gyda ffrindiau neu weld ein teulu. Roedd rhai'n teimlo'n flin am eu bod ddim yn gallu mynd allan neu wneud eu gweithgareddau arferol.

Roedd rhai eraill yn mwynhau cael mwy o amser gartref a gyda'r teulu. Roedd rhai ohonom yn ffodus i gael gardd i chwarae ynddi. Roedd rhai ohonom wir yn colli mynd i'r ysgol, ac roedd rhai eraill yn mwynhau peidio gorfod mynd i'r ysgol. Roeddem hefyd wedi hen ddiflasu ar aros gartref.

Fe wnaethom ddysgu bod ein cartrefi, strydoedd, ysgolion, meysydd chwarae, parciau a'r lleoedd rydym yn mynd i gwrdd â'n ffrindiau ac i chwarae yn bwysig iawn. Rydym eisiau gwneud y lleoedd hyn y gorau y gallant fod fel ein bod yn gallu eu mwynhau yn y dyfodol.



# B

## Ein Grangetown NAWR: y lleoedd rydym yn eu hoffi a ddim yn eu hoffi

Gyda'n gilydd fe wnaethom greu map o'r holl lleoedd yr ydym yn eu hoffi yn Grangetown. Dyma'r lleoedd rydym yn hoffi mynd iddynt, lleoedd yr ydym yn teimlo'n ddiogel ynddynt ac yn rhydd i chwarae a threulio amser. Mae'r lleoedd hyn wedi'u marcio ar y map mewn dotiau gwyrdd.

Dyma'r lleoedd rydym yn eu hoffi:

- Ein cartref a'r stryd lle rydym yn byw
- Y parciau a'r manau gwyrdd yn Grangetown - Gerddi Grange, Parc Marl, Parc Sevenoaks, 'Asda Hill', ac afon Taf
- Adeiladau cymunedol - Hybiau, llyfrgelloedd, Pafiliwn Grange, Canolfan Hamdden Channel View
- Ysgolion
- Siopau - yn cynnwys IKEA ac Asda
- Lleoedd bwyta
- Lleoedd addoli - mosg, eglwys, teml
- Canol Dinas Caerdydd



Fe wnaethom hefyd greu map o'r lleoedd nad ydym yn eu hoffi. Nid ydym bob amser yn teimlo'n ddiogel yn y lleoedd hyn, neu nid ydym yn gallu chwarae neu dreulio amser yn hawdd yn y lleoedd hyn. Mae'r lleoedd hyn yn cael eu marcio gyda dotiau coch ar y map.

Dyma'r lleoedd nad oes rhai ohonom yn eu hoffi:

- Ffyrdd prysur gyda llawer o geir, sy'n anodd eu croesi
- Lleoedd lle mae'n rhaid i ni gerdded ond nid ydym yn teimlo'n ddiogel
- Lleoedd sy'n teimlo'n beryglus gan nad oes yna lawer o bobl o gwmpas
- Parciau a manau gwyrdd sy'n teimlo'n rhy fawr ac agored
- Parciau a manau chwarae lle mae pobl hŷn yn treulio amser.

Nid oedd pawb yn teimlo'r un fath am yr un lleoedd. Roedd rhai ohonom yn hoffi'r parciau, ond roedd rhai eraill yn meddwl bod y parciau'n gallu bod yn beryglus, neu'n eu gweld yn ddiflas. Roedd rhai ohonom yn hoffi strydoedd prysur gyda siopau a lleoedd i fynd, ond roedd rhai yn eu gweld yn rhy beryglus a swllyd oherwydd y traffig.

Wrth i ni feddwl am newid lleoedd nawr ac yn y dyfodol, mae angen gwneud yn siŵr ein bod yn ystyried barn pawb.




# C

## Ein Grangetown yn Y DYFODOL

Mae ein cynllun yn cynnwys pedwar syniad mawr. Hoffem gael:

- **Grangetown Glân a Diogel** - gyda pharciau a strydoedd sy'n ddiogel i chwarae a threulio amser ynddynt ac sy'n rhydd rhag sbwriel
- **Grangetown i Chwarae** - gyda pharciau a meysydd chwarae gwell, a lleoedd i chwarae yn agos at ein cartrefi
- **Grangetown Gwyrdd** - lle mae ein parciau a'n mannau gwyrdd yn cael eu gwarchod a'u gwella, a lle mae yna le i fywyd gwylt
- **Grangetown i Bawb** - gyda lleoedd a gweithgareddau ar gyfer pobl o bob oed, ar gyfer dynion, menywod, bechgyn a merched, a lle mae'n hawdd i bawb fynd o le i le.



**Grangetown Glân a Diogel**



Strydoedd diogel



Strydoedd, llwybrau a chymdogaeth lân



Cymdogaeth ddiogel



**Grangetown i Chwarae**



Lonydd chwarae ar gyfer plant bach



Clybiau, caffis a gweithgareddau ar gyfer yr ardegau



Cyfleoedd chwarae ar gyfer merched a menywod ifanc



Offer chwarae ar gyfer plant hŷn

## Grangetown: lle gwych i gael eich magu



**Grangetown Gwyrdd**



Teithio gwyrdd a llesol



Mwy o fannau gwyrdd



Gwella parciau a meysydd chwarae presennol



Mwy o lystyfiant, bioamrywiaeth



**Grangetown i Bawb**



Dylunio ar gyfer anabledd



Lle diogel i fenywod



Canolfan iechyd meddwl



Tai a chyflogaeth



Gweithgareddau a gweithdai ar gyfer pobl hŷn

## 1 Grangetown Glân a Diogel

Fe wnaethom greu map yn dangos ein syniadau ar gyfer Grangetown Glân a Diogel a lle hoffem weld y syniadau hyn yn digwydd.



Mae ein map yn dangos lle rydym eisiau:



**Pobl i'n helpu i groesi ffyrdd prysur iawn yn ddiogel**




**Lonydd beicio i'w gwneud hi'n fwy diogel i ni ddefnyddio ein beiciau**



**Gweld adeiladau gwag yn cael eu defnyddio**



**Croesfannau sebra i'w gwneud hi'n haws croesi i ochr arall y stryd**



**Gwell arwyddion i'n helpu i gyrraedd manau chwarae a lleoedd eraill yr ydym am fynd iddynt yn ddiogel**



**Toiledau fel y gallwn dreulio mwy o amser mewn manau chwarae a pharciau**




**Rampiau cyflymder i arafu ceir a'i gwneud hi'n fwy diogel i blant chwarae ar y strydoedd**



**Arwynebau llyfn ar gyfer cerdded a mynd ar sgwteri**

Rydym hefyd eisiau:

- Mwy o oleuadau stryd i ni deimlo'n fwy diogel gyda'r nos
- Tyllau mawr yn y ffyrdd yn cael eu llenwi, i'n hatal rhag cael ein sblasio pan fyddwn yn cerdded heibio



## 2 Grangetown i Chwarae

Fe wnaethom greu map yn dangos ein syniadau ar gyfer lleoedd i Chwarae yn Grangetown a lle hoffem weld y syniadau hyn yn digwydd.



Mae ein map yn dangos lle rydym eisiau:



Offer chwarae mwy heriol ar gyfer plant hŷn



Wal graffiti i ni gael gwneud celf



Mwy o gaeau ar gyfer chwaraeon fel pêl-droed, criced a phêl-fasged



Arwynebau gwell ar gyfer sglefrio a sglefr-fyrddio



Mwy o gaeau chwaraeon lle gall merched a menywod ifanc chwarae




Parc sglefrio



Lonydd neu ffyrdd sy'n ddiogel i chwarae arnynt



Mwy o glybiau, caffis a gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc



## 3 Grangetown Gwyrdd

Fe wnaethom greu map yn dangos ein syniadau ar gyfer gwneud Grangetown yn Wyrdd a lle hoffem weld y syniadau hyn yn digwydd.



Mae ein map yn dangos lle rydym eisiau:



Mwy o le ar gyfer bywyd gwyllt a natur gyda blodau gwyllt, planhigion, coed ac adar



Beics ar gael i'w defnyddio neu eu benthyca sy'n addas ar gyfer plant, nid oedolion yn unig



Strydoedd gwyrddach gyda blodau a phlanhigion



Mannau gwyrdd i chwarae, lle nad yw cŵn yn cael mynd

Rydym hefyd eisiau

- Biniau ailgylchu ar gyfer mathau gwahanol o wastraff
- Parciau yn cael eu gwella gyda mwy o oleuadau, ardaloedd eistedd a gwyrddni





## 4 Grangetown i Bawb

Fe wnaethom greu map yn dangos ein syniadau ar gyfer gwneud Grangetown yn lle i bawb a lle hoffem weld y syniadau hyn yn digwydd.

Mae ein map yn dangos lle rydym eisiau:



**Offer chwarae y gall pawb ei ddefnyddio ac sy'n hwyl i blant a phobl ifanc anabl**



**Mannau a chaffis i ferched a menywod ifanc eu defnyddio**



**Gwell cymorth iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc**



**Cael mwy o gefnogaeth ar gyfer teuluoedd**

**Rydym hefyd eisiau**

- Gweithgareddau a chefnogaeth ar gyfer pobl hŷn
- Gwell cefnogaeth i bobl ddigartref
- Mwy o leoedd i eistedd i lawr gyda ffrindiau a theulu neu i fwynhau bwyd gyda'n gilydd



**Siopau 'pop-up' a lleoedd bwyd**





## Pethau sydd angen eu newid nawr, mewn 3-4 blynedd ac mewn 5+ blynedd

**Rydym wedi blaenoriaethu pa syniadau ddylai ddigwydd nawr, mewn 3-4 blynedd ac mewn 5+ mlynedd**

**Y pethau sy'n bwysig iawn i'r rhan fwyaf ohonom ac a ddylai ddigwydd nawr:**

- Offer chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc anabl
- Mwy o le i eistedd i lawr gyda ffrindiau a theulu neu i fwynhau bwyd gyda'n gilydd
- Mwy o finiau ailgylchu ar gyfer mathau gwahanol o wastraff
- Mentrau i wneud ein cymdogaeth, ein parciau a'n mannau chwarae yn lân
- Gwell cymorth iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc
- Lloches ar gyfer pobl ddigartref
- Pobl i'n helpu i groesi ffyrdd prysur iawn yn ddiogel
- Clybiau, caffis a gweithgareddau ar gyfer dynion a menywod ifanc
- Ardaloedd chwaraeon ar wahân (pêl-droed a pêl-fasged) ar gyfer merched a menywod ifanc.

**Dyma rai o'r pethau ddylai ddigwydd mewn 3-4 blynedd**

- Defnyddio lleoedd gwag ar gyfer y cyhoedd
- Mwy o offer chwarae heriol ar gyfer plant hŷn
- Gwobrau ar gyfer defnyddio teithio llesol a gwyrdd fel beiciau a cheir trydan
- Gwneud parciau a lleoedd cyhoeddus yn hygyrch i bob plentyn
- Mwy o gaeau ar gyfer chwaraeon fel pêl-droed, criced a pêl-fasged
- Lonydd beicio i'w gwneud hi'n fwy diogel i ni ddefnyddio ein beiciau
- Gwell arwyddion i'n helpu i gyrraedd mannau chwarae a lleoedd eraill rydym eisiau eu cyrraedd yn ddiogel.

**Rhai o'r pethau a all ddigwydd mewn 5+ mlynedd:**

- Strydoedd gwyrddach gyda blodau a phlanhigion
- Pwll tywod yn y parc
- Gwneud glan afon Taf yn fwy deniadol
- Caffi i fenywod a merched gymdeithasu mewn preifatrwydd.

## Gwireddu'r cynllun

**Rydym angen cymorth gan lawer o bobl i'n helpu i wireddu ein cynllun a'n syniadau.**

**Hoffem weithio gydag:**


- Ein cyngorwyr lleol i helpu pobl eraill i glywed ein syniadau
- Y bobl sy'n gweithio yng Nghyngor Dinas Caerdydd sy'n rheoli ein strydoedd, parciau ac adeiladau cymunedol
- Y bobl sy'n cynllunio dinasoedd ac yn dylunio cymdogaethau, parciau a mannau chwarae
- Ein hysgolion ac athrawon
- Elusennau lleol a gwasanaethau ieuentid a all helpu i wireddu ein syniadau, neu a all ddangos ein syniadau i bobl eraill
- Gwasanaethau ieuentid lleol, a gwasanaethau eraill megis gwasanaethau iechyd meddwl, i gefnogi pobl ifanc a theuluoedd i wireddu rhai o'n syniadau
- Busnesau yn yr ardal, megis siopau neu fusnesau lleol eraill, a all gefnogi ein syniadau a helpu i wneud eu mannau yn y gymuned yn fwy cyfeillgar i blant a phobl ifanc.

## Diolch!

**Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi ein helpu i greu ein cynllun.**

Diolch i:

- Ein ffrindiau wnaeth ein helpu yn y dosbarth ac yn y gweithdai
- Athrawon a staff yr ysgolion canlynol: Ysgol Uwchradd Fitzalan; Ysgol Gynradd Parc Ninian, Ysgol Gynradd Grangetown ac Ysgol Hamadryad
- Fforwm Ieuentid Pafiliwn Grange
- Pafiliwn Grange
- Prifysgol Caerdydd a Chaerdydd sy'n Dda i blant am ariannu ein prosiect
- Matluba, Shoruk, Tom, Mhairi a Neil am ein helpu i ysgrifennu'r cynllun. Cewch wybod mwy amdany'n nhw yn yr adran nesaf.
- Shoruk am wneud y mapiau a thynnu lluniau o'n hoff adeiladau.



# Y bobl wnaeth ein helpu i ysgrifennu ein cynllun

Cawsom gymorth gan dîm o bobl o Brifysgol Caerdydd



Matluba Khan



Shoruk Nekeb



Tom Smith



Neil Harris



Mhairi McVicar

Mae ganddynt i gyd ddiddordeb mewn lleoedd fel dylunwyr trefol, daearyddwyr, penseiri a chynllunwyr. Fe wnaeth Matluba a Shoruk hefyd wneud y mapiau a'r lluniau.



Gallwch gysylltu  
â Matluba os  
hoffech gael  
gwybod mwy am  
greu ein cynllun:

Ysgol Ddaearyddiaeth a Chynllunio  
Prifysgol Caerdydd  
Adeilad Morgannwg Rhodfa'r  
Brenin Edward VII  
Caerdydd CF10 3WA  
e: [KhanM52@cardiff.ac.uk](mailto:KhanM52@cardiff.ac.uk)  
ff: 029 2087 4994

